

Ymweliad Sicrwydd Bob Tair Blynedd ar gyfer ansawdd a phrofiad myfyrwyr

Mae CCAUC yn cynnal ymweliadau Sicrwydd Bob Tair Blynedd â sefydliadau a reoleiddir fel rhan o'r Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru.

Bydd hyn yn sail i ymweliadau sefydliadol y Cyngor ac ymweliadau a phrosesau sicrwydd eraill. Hefyd bydd yn sail i'n proses bresennol ni o adolygu risg sefydliadol, a gynghorir gan ein Pwyllgor Asesu Ansawdd, a'r llythyr risg blynyddol dilynol at y darparwr. Bydd hefyd yn sail i asesu cyflwyniadau blynyddol y cynlluniau mynediad a ffioedd a'r dogfennau ymgysylltu a chynllunio strategol. Bydd ein hymgysylltu â sefydliadau yn dilyn y dadansoddiad hwn yn seiliedig ar risg ac yn gymesur. Ni fydd canlyniad adolygiad bob tair blynedd yn arwain yn uniongyrchol at bwerau rheoleiddiol CCAUC, ond fe'i defnyddir fel sail i brosesau eraill, fel adolygiadau o risg sefydliadol, a allai sbarduno'r pwerau hyn. Mae'r ymweliadau'n gyfle i edrych ar faterion, problemau neu arferion da sydd wedi dod i'r amlwg drwy brosesau eraill y Fframwaith Asesu Ansawdd.

Mae'r ymweliad bob tair blynedd yn cynnwys ymweld â sefydliad a chynnal cyfarfodydd ar wahân gyda'r canlynol:

- yr undeb myfyrwyr a chynrychiolwyr
- aelodau'r Corff Llywodraethu
- aelodau'r uwch dîm rheoli, gan gynnwys staff sydd â chyfrifoldeb am ansawdd

Wedyn mae'r swyddogion yn llunio adroddiad a roddir i'r sefydliad er mwyn iddo allu tynnu sylw at faterion yn ymwneud â manwl gywirdeb. Mae'r adroddiad yn cael ei roi i'r Pwyllgor Asesu Ansawdd, am gyngor, a hefyd i'r Cyngor fel sail i'w ymgysylltu â sefydliadau. Mae swyddogion yn disgwyl y bydd y corff llywodraethu'n ystyried yr adroddiad hwn hefyd.

Mae'r meysydd a gaiff sylw yn yr ymweliad bob tair blynedd yn cynnwys y canlynol:

- Canlyniadau arolygon myfyrwyr, gan gynnwys yr ACF, a'r camau gweithredu a roddir ar waith fel ymateb i'r rhain
- Canfyddiadau'r adolygiad sicrwydd ansawdd allanol diweddaraf, os yw hynny'n briodol, a chanlyniadau archwiliadau/adolygiadau/adroddiadau PSRB eraill
- Datganiad sicrwydd blynyddol y corff llywodraethu i CCAUC
- Cwynion myfyrwyr, gan gynnwys achosion a datrysiadau
- Ymgysylltu rhwng y sefydliad a'r myfyrwyr fel partneriaid, gan gynnwys mewn sefydliadau partner
- Rôl llais y myfyriwr ar y corff llywodraethu
- Ymgysylltu'r corff llywodraethu ag ansawdd
- Unrhyw newidiadau yng nghenhadaeth a chyfeiriad strategol y sefydliad
- Ymgysylltu â Wise Wales
- Cyfran y staff sy'n gymwys i addysgu, achrediad HEA
- Cynygion Diamod
- Materion y Gymraeg
- Adroddiad ansawdd blynyddol gan undeb y myfyrwyr

Rhowch gopiâu i ni o'ch strategaethau perthnasol i'r adolygiad sicrwydd bob tair blynedd os gwelwch yn dda, cyn y cyfarfod, ee. strategaeth profiad myfyrwyr, strategaeth gwella ansawdd.

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau pellach, cysylltwch â Nicola Hunt (nicola.hunt@hefcw.ac.uk).